Abergavenny
EISTEDDFOD
Y Fenni

Eisteddfod Y Fenni 2007

Gwahoddir llenorion a pherfformwyr i gystadlu yn Eisteddfod Y Fenni, a gynhelir eleni y 16 Mehefin, yn Theatr y Bwrdeisdref Y Fenni. Y dyddiad cau yw 18 Mai, a gellir cael mwy o fanylion ar wefan yr Eisteddfod, sef www.eisteddfodyfenni.co.uk.

Mae croeso i gystadleuwyr llenyddol gynnig gwaith yn Gymraeg neu yn Saesneg, gyda thair cystadleuaeth yr un yn y ddwy iaith. Yn Gymraeg "Ystyr Cymreictod heddiw" yw pwnc y rhyddiaith, "Byw yng Nghymru" yw testun y gerdd i ddysgwyr, a "Hen glebren fusnesllyd o'r Fenni" yw llinell gyntaf y limrig.

Yn wahanol i'r arfer, ychwanegwyd cystadleuaeth newydd i berfformwyr llwyfan: deuawd neu driawd offerynnol neu leisiol, i gyd-fynd â'r cystadlaethau mwy traddodiadol megis yr unawdau lleisiol ac offerynnol, yn cynnwys cân o sioe gerdd, a'r her adroddiad.

"Rydym yn ymwybodol iawn bod trigolion Y Fenni yn mwynhau'r Eisteddfod oherwydd safon uchel y perfformwyr; bron mai fel cyngerdd y gwelant y noson, yn hytrach na chystadleuaeth" medd Ceri Thomas, Cadeirydd Eisteddfod Y Fenni. "Oherwydd hynny mae'n bwysig iawn ein bod ni'n darparu rhaglen ddifyr ac amrywiol, a bydd y gystadleuaeth newydd hon yn siŵr o ychwanegu at fwynhad y gynulleidfa."

Yn ystod y dydd, cynhelir eisteddfod y plant, yn Ysgol y Brenin Harri'r VIII, gyda'r plant lleiaf yn cystadlu yn y bore a'r rhai hŷn yn y prynhawn. Gwahoddir pedwar cystadleuydd gorau y prynhawn i ddiddanu cynulleidfa'r Theatr gyda'r nos, a bu'r eitem honno hefyd yn ychwanegiad poblogaidd at y rhaglen, gyda'r bobl ifainc talentog y llynedd yn cynnwys pianydd, actor, cantores a thrombonydd.

Os na allwch gysylltu â'r we, ffoniwch Ceri Thomas am fwy o wybodaeth am gystadlu yn Eisteddfod Y Fenni, ac am ffurflenni cais, ar 01873 850379.

1.3.07

EISTEDDFOD Y FENNI 16 MEHEFIN 2007
Ffurflen gais i oedolion – dyddiad cau 18 Mai 2007

Cystadlaethau llwyfan (1af £100/2il £50/3rd £30 ar wahan i'r Her Unawd - gweler isod) (hunan-ddewisiad: dewch â'r copi gwreiddiol ac 1 copi i'r rhagbrofion ar gyfer y cyfeilydd/beirniad)		**Ticiwch yr eitemau priodol**
1	Her Unawd 1af £250/2il £125/3ydd £75/4ydd £50 (dim yn agored i ymgeiswyr Unawd dan 25)	
2	Unawd Gymraeg	
3	Unawd dan 25	
4	Her Adroddiad (dim mwy na 7 munud)	
5	Cân o Sioe Gerdd	
6	Unawd offerynnol dan 25	
7	Deuawd neu driawd offerynnol neu leisiol	
Cystadlaethau llên (1af: £25/2il £15/3ydd £10)		
8	Rhyddiaith: Ystyr Cymreictod heddiw	
9	Limrig i ddechrau: Hen glebren fusneslyd o'r Fenni….	
10	Cerdd i ddysgwyr ar y thema: Byw yng Nghymru	

Mae'n bosib y byddwn yn tynnu lluniau, i'w defnyddio e.e. ar ein gwefan.
Os nad ydych am i hyn ddigwydd, ticiwch y blwch. ☐

Printiwch o.g.y.dd

Enw cystadleuydd	
Ffugenw (rhifau 8 -10 yn unig)	
Cyfeiriad	
Rhif ffôn	Cyfeiriad e-bost

Cynhelir rhagbrofion o 12.00, 16 Mehefin yng Nghapel y Methodistiaid, Castle Street, Y Fenni, a'r cystadlaethau terfynol o 7 yr hwyr yn Theatr y Bwrdeisdref.

Dychwelwch y ffurflen hon at H Middleton, 2 Bryn Afal, Y Pandy
Y Fenni, NP7 8DN. Manylion, ffurflenni i blant a chanllawiau oddi wrth C Thomas, 01873 850379 neu www.eisteddfodyfenni.co.uk